**Yr Ail Gynulliad - Cyfarfod Llawn (172)**
**Dydd Mercher, 30 Tachwedd 2005**

# AGENDA

## Bydd y cyfarfod yn dechrau am 2.00pm

............................

**Eitem 1 -** Cynnig i ethol aelodau i Banel y Cadeiryddion a Chynigion i ethol aelodau i'r pwyllgorau pwnc

**Eitem 2 -** Cwestiynau i Brian Gibbons, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Eitem 3** - Cwestiynau i Alun Pugh, y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

**Eitem 4** - Cwestiynau i Bwyllgor y Ty

**Eitem 5 -** Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.25

**Eitem 6 -** Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau o dan Ddeddf Rheilffyrdd 2005 i Brif Weinidog Cymru

**Eitem 7 -** Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau o dan Orchymyn y Cymunedau Ewropeaidd (Dynodi) (Rhif 2) i Brif Weinidog Cymru

**Eitem 8 -** Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau o dan Orchymyn y Cymunedau Ewropeaidd (Dynodi) (Rhif 3) i Brif Weinidog Cymru

**Eitem 9 -** Cynnig i gymeradwyo'r Amserlen Gyfnodol

**Eitem 10 -** Dadl am Adolygiad Polisi'r Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio : Ailstrwythuro'r Heddlu

**Eitem 11 -** Y Ddadl FerNDM2719 Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr): Diogelu Gwasanaethau GIG Hollbwysig i Gleifion yn y Canolbarth a'r Gorllewin W

............................

## Eitem 1 - Cynnig i ethol aelodau i Banel y Cadeiryddion a Chynigion i ethol aelodau i'r pwyllgorau pwnc

**NDM2705 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn unol â Rheol Sefydlog 9.3, yn ethol yr aelodau canlynol i'r panel y detholir cadeiryddion y pwyllgorau pwnc ohono:

Rosemary Butler (Llafur)
Janice Gregory (Llafur)
Christine Gwyther (Llafur)
Ann Jones (Llafur)
Rhodri Glyn Thomas (Plaid Cymru)
Glyn Davies (Ceidwadwyr)
Peter Black (Democratiaid Rhyddfrydol )

**NDM2706 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn unol â Rheol Sefydlog 8.4, yn ethol yr aelodau canlynol i'w Bwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes:

Christine Chapman (Llafur)
Jeff Cuthbert (Llafur)
Irene James (Llafur)
Janet Ryder (Plaid Cymru)
Owen John Thomas (Plaid Cymru)
William Graham (Ceidwadwyr); a

2. Yn unol â Rheol Sefydlog 9.3, yn dethol Peter Black (Democratiaid Rhyddfrydol) o'r Panel i fod yn Gadeirydd y pwyllgor.

**NDM2707 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn unol â Rheol Sefydlog 8.4, yn ethol yr aelodau canlynol i'w Bwyllgor Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad:

Tamsin Dunwoody (Llafur)
Lorraine Barrett (Llafur)
Elin Jones (Plaid Cymru)
Jocelyn Davies (Plaid Cymru)
Brynle Williams (Ceidwadwyr) Mick Bates (Democratiaid Rhyddfrydol ); a

2. Yn unol â Rheol Sefydlog 9.3, yn dethol Glyn Davies (Ceidwadwyr) o’r Panel i fod yn Gadeirydd y pwyllgor.

**NDM2708 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn unol â Rheol Sefydlog 8.4, yn ethol yr aelodau canlynol i’w Bwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio:

Huw Lewis (Llafur)
Sandy Mewies (Llafur)
Leanne Wood (Plaid Cymru)
Mark Isherwood (Ceidwadwyr)
Laura Ann Jones (Ceidwadwyr)
Mick Bates (Democratiaid Rhyddfrydol ); a

2. Yn unol â Rheol Sefydlog 9.3, yn dethol Janice Gregory (Llafur) o’r Panel i fod yn Gadeirydd y pwyllgor.

**NDM2709 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn unol â Rheol Sefydlog 8.4, yn ethol yr aelodau canlynol i’w Bwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth:

Leighton Andrews (Llafur)
Carl Sargeant (Llafur)
Alun Ffred Jones (Plaid Cymru)
Janet Davies (Plaid Cymru)
Alun Cairns (Ceidwadwyr)
Kirsty Williams (Democratiaid Rhyddfrydol ); a

2. Yn unol â Rheol Sefydlog 9.3, yn dethol Christine Gwyther (Llafur) o'r Panel i fod yn Gadeirydd y pwyllgor.

**NDM2710 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn unol â Rheol Sefydlog 8.4, yn ethol yr aelodau canlynol i'w Bwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol:

John Griffiths (Llafur)
Lynne Neagle (Llafur)
Karen Sinclair (Llafur)
Helen Mary Jones (Plaid Cymru)
Jonathan Morgan (Ceidwadwyr)
Jenny Randerson (Democratiaid Rhyddfrydol ); a

2. Yn unol â Rheol Sefydlog 9.3, yn dethol Rhodri Glyn Thomas (Plaid Cymru) o'r Panel i fod yn Gadeirydd y pwyllgor.

**NDM2711 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn unol â Rheol Sefydlog 8.4, yn ethol yr aelodau canlynol i'w Bwyllgor Diwylliant, yr Iaith Gymraeg a Chwaraeon:

Denis Idris-Jones (Llafur)
Val Lloyd (Llafur)
Owen John Thomas (Plaid Cymru)
Lisa Francis (Ceidwadwyr)
Laura Ann Jones (Ceidwadwyr)
Eleanor Burnham (Democratiaid Rhyddfrydol ); a

2. Yn unol â Rheol Sefydlog 9.3, yn dethol Rosemary Butler (Llafur) o'r Panel i fod yn Gadeirydd y pwyllgor.

**NDM2712 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn unol â Rheol Sefydlog 8.4, yn ethol yr aelodau canlynol i'w Bwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus:

Gwenda Thomas (Llafur)
Catherine Thomas (Llafur)
Dai Lloyd (Plaid Cymru)
David Melding (Ceidwadwyr)
Mike German (Democratiaid Rhyddfrydol )

Peter Law (Annibynnol); a

2. Yn unol â Rheol Sefydlog 9.3, yn dethol Ann Jones (Llafur) o’r Panel i fod yn Gadeirydd y pwyllgor.

**............................**

**Eitem 2 - Cwestiynau i Brian Gibbons, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**............................**

**Eitem 3 - Cwestiynau i Alun Pugh, y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon**

**............................**

**Eitem 4 - Cwestiynau i Bwyllgor y Ty**

**............................**

*Ni chynhelir dadl ar yr eitem hon. Cynhelir pleidlais arni’n syth.*

**Eitem 5 - Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.25**

**NDM2713 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu’n unol â Rheol Sefydlog 24.25:

1.
a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Tachwedd 2005 ynghylch y Rheoliadau drafft, Rheoliadau Cynhyrchion Pysgodfeydd (Taliadau Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) 2005; a

b) Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Cynhyrchion Pysgodfeydd (Taliadau Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) 2005 yn cael eu gwneud yn unol ag:

i) y gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Tachwedd 2005;
ii) yr arfarniad rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Hydref 2005; a
iii) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Tachwedd 2005.

Dogfennau Ategol
Rheoliadau Cynhyrchion Pysgodfeydd (Taliadau Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) 2005
Regulatory Appraisal - Dim Copi Cymraeg Ar Gael
Adroddiad gan y Pwyllgor Deddfau
Memorandwm Cywiriadau

2.
a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Tachwedd 2005 ynghylch y Rheoliadau drafft, Rheoliadau Cynhyrchion Buchol (Cyfyngu ar eu Rhoi ar y Farchnad) (Cymru) (Rhif 2) 2005; a

b) Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Cynhyrchion Buchol (Cyfyngu ar eu Rhoi ar y Farchnad) (Rhif 2) (Cymru) yn cael eu gwneud yn unol ag:

i) y Gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Tachwedd 2005; a
ii) yr arfarniad rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Tachwedd 2005; a
iii) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 23 Tachwedd 2005.

Dogfennau Ategol
Rheoliadau Cynhyrchion Buchol (Cyfyngu ar eu Rhoi ar y Farchnad) (Rhif 2) (Cymru) 2005
Regulatory Appraisal - Dim Copi Cymraeg Ar Gael
Adroddiad gan y Pwyllgor Deddfau
Memorandwm Cywiriadau

**.............................**

**Eitem 6 - Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau o dan Ddeddf Rheilffyrdd 2005 i Brif Weinidog Cymru**

**NDM2714 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu dan adran 62 (1) (b) Deddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penderfynu dirprwyo i’r Prif Weinidog holl swyddogaethau’r Cynulliad Cenedlaethol a gynhwysir yn neu o dan Ddeddf Rheilffyrdd 2005, ac eithrio’r rhai na ellir, yn ôl y gyfraith, eu dirprwyo yn y modd hwnnw:

*Ni fydd dim yn y cynnig hwn yn lleihau goruchafiaeth awdurdod y Cynulliad llawn nac yn lleihau rôl Pwyllgorau’r Cynulliad wrth arfer y swyddogaethau uchod.*

*Gwneir y dirprwyo hwn ar y ddealltwriaeth y dirprwyir y swyddogaethau hynny ymhellach, fel y bo’n briodol, i’r Gweinidog Cynulliad priodol ac i staff.*

*Gellir canfod copi o Ddeddf Rheilffyrdd 2005 ar y Rhyngrwyd drwy ddilyn y ddolen isod:*
*http://www.opsi.gov.uk/acts/acts2005/20050014.htm#aofs*

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***
*Yn unol â’r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae’r Llywydd wedi penderfynu grwpio’r gwelliannau canlynol at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau’n cael eu cynnal yn unigol:*

**(1, 2, 3 + 4)**
**(5)**

**Gwelliant 1. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ar ôl ‘ac eithrio’r' rhoi:

‘rhai dan adran 3(9) a’r

**Gwelliant 2. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ar ôl ‘ac eithrio’r' rhoi:

‘rhai dan adran 19(2)(c) a’r

**Gwelliant 3. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ar ôl ‘ac eithrio’r' rhoi:

‘rhai dan adran atodlen 1, para 15(5) a’r

**Gwelliant 4. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ar ôl ‘ac eithrio’r' rhoi:

‘rhai dan adran atodlen 5, rhan 4, para 11(3)(c) a’r

**Gwelliant 5. David Melding (Canol De Cymru)**

Ar ôl ‘ac eithrio’r' rhoi:

‘rhai dan adran 10(1) a’r

**...........................**

**Eitem 7 - Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau o dan Orchymyn y Cymunedau Ewropeaidd (Dynodi) (Rhif 2) i Brif Weinidog Cymru**

**NDM2715 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu dan adran 62 (1) (b) Deddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penderfynu dirprwyo i’r Prif Weinidog holl swyddogaethau’r Cynulliad Cenedlaethol (ac eithrio’r rhai na ellir, yn ôl y gyfraith, eu dirprwyo yn y modd hwnnw) a gynhwysir yn neu dan reoliadau a wneir gan:

a) y Cynulliad Cenedlaethol (boed hwy wedi eu gwneud gan y Cynulliad Cenedlaethol ar ei ben ei hun, neu gydag un o Weinidogion y DU, Adran o Lywodraeth y DU neu Weithrediaeth yr Alban neu Ogledd Iwerddon) dan adran 2(2) Deddf Cymunedau Ewropeaidd 1972 yn unol â’r swyddogaethau a roddwyd i’r Cynulliad gan Orchymyn y Cymunedau Ewropeaidd (Dynodi) (Rhif 2) 2005 (SI 2005, Rhif 1971) (ar gael ar wefan y Llyfrfa yn http://www.opsi.gov.uk/si/si2005/20051971.htm: neu

b) Un o Weinidogion y DU dan ei b/phwerau cyfochrog, dan yr adran 2(2) ddywededig mewn perthynas ag unrhyw un o’r mesurau sy’n ymwneud â pha swyddogaethau a roddwyd i’r Cynulliad Cenedlaethol yn y Gorchymyn Dynodi.

*Ni fydd dim yn y cynnig hwn yn lleihau goruchafiaeth awdurdod y Cynulliad llawn nac yn lleihau rôl Pwyllgorau’r Cynulliad wrth arfer y swyddogaethau uchod.*

*Gwneir y dirprwyo hwn ar y ddealltwriaeth y dirprwyir y swyddogaethau hynny ymhellach, fel y bo’n briodol, i’r Gweinidog Cynulliad priodol ac i staff.*

*Gellir gweld Deddf Llywodraeth Cymru 1998 trwy ymweld â’r ddolen ganlynol: http://www.opsi.gov.*

*uk/acts/acts1998/19980038.htm*

*Mae Deddf Cymunedau Ewropeaidd 1972 i'w chael yn Llyfrgell yr Aelodau.*

**...........................**

**Eitem 8 - Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau o dan Orchymyn y Cymunedau Ewropeaidd (Dynodi) (Rhif 3) i Brif Weinidog Cymru**

**NDM2716 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu dan adran 62 (1) (b) Deddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penderfynu dirprwyo i'r Prif Weinidog holl swyddogaethau'r Cynulliad Cenedlaethol (ac eithrio'r rhai na ellir, yn ôl y gyfraith, eu dirprwyo yn y modd hwnnw) a gynhwysir yn neu dan reoliadau a wneir gan:

*a) y Cynulliad Cenedlaethol (boed hwy wedi eu gwneud gan y Cynulliad Cenedlaethol ar ei ben ei hun, neu gydag un o Weinidogion y DU, Adran o Lywodraeth y DU neu Weithrediaeth yr Alban neu Ogledd Iwerddon) dan adran 2(2) Deddf Cymunedau Ewropeaidd 1972 yn unol â'r swyddogaethau a roddwyd i'r Cynulliad gan Orchymyn y Cymunedau Ewropeaidd (Dynodi) (Rhif 3) 2005 (SI 2005, Rhif 2766) (ar gael ar wefan y Llyfrfa yn http://www.opsi.gov.uk/si/si2005/20052766.htm: neu*http://www.legislation.hmso.gov.uk/si/si2003/20031246.htm); neu

b) Un o Weinidogion y DU dan ei b/phwerau cyfochrog, dan yr adran 2(2) ddywededig mewn perthynas ag unrhyw un o'r mesurau sy'n ymwneud â pha swyddogaethau a roddwyd i'r Cynulliad Cenedlaethol yn y Gorchymyn Dynodi.

*Ni fydd dim yn y cynnig hwn yn lleihau goruchafiaeth awdurdod y Cynulliad llawn nac yn lleihau rôl Pwyllgorau'r Cynulliad wrth arfer y swyddogaethau uchod.*

*Gwneir y dirprwyo hwn ar y ddealltwriaeth y dirprwyir y swyddogaethau hynny ymhellach, fel y bo'n briodol, i'r Gweinidog Cynulliad priodol ac i staff.*

*Gellir gweld Deddf Llywodraethu Cymru 1998 drwy ddilyn y ddolen isod: http://www.opsi.gov.uk/acts/acts1998/19980038.htm*

*Mae Deddf Cymunedau Ewropeaidd 1972 i'w chael yn Llyfrgell yr Aelodau.*

**...........................**

## Eitem 9 - Cynnig i gymeradwyo'r Amserlen Gyfnodol

**NDM2717 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu dan Reol Sefydlog 5.1, yn nodi'r amserlen 15 mis arfaethedig ar gyfer Busnes y Cynulliad a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 23 Tachwedd 2005.

Dogfennau Ategol
Amserlen Gyfnodol - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*

..........................

## Eitem 10 - Dadl am Adolygiad Polisi'r Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio: Ailstrwythuro'r Heddlu

**NDM2718 Janice Gregory (Ogwr)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol â Rheol Sefydlog 6.6, yn nodi Adroddiad y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio sy'n dwyn y teitl 'Ailstrwythuro'r Heddlu', a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at yr holl Aelodau ar 23 Tachwedd 2005.

Dogfennau Ategol
Y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio
Annex 1-4 - Dim Copi Cymraeg Ar Gael
Annex 5-8 - Dim Copi Cymraeg Ar Gael

..........................

## Eitem 11 - Y Ddadl Fer - NDM2719 Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr): Diogelu Gwasanaethau GIG Hollbwysig i Gleifion yn y Canolbarth a'r

**Gorllewin W**

.............................

**Rhagwelir y bydd y cyfarfod yn dod i ben erbyn 5.30pm**

......................................

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 2.00pm ddydd Mawrth, 6 Rhagfyr 2005**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**